**Papur 1**
**Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol**

Dyddiad: **1 Mai 2013**

Teitl: **Papur Tystiolaeth – Portffolio Llywodraeth Leol**

1. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn amlinellu pob un o fy mhrif flaenoriaethau ar gyfer y Tymor hwn yn y Cynulliad. Mae hyn yn cynnwys gwella gwasanaethau cyhoeddus a chreu cymunedau mwy diogel. Rwyf yn falch o ddweud ein bod eisoes wedi llwyddo i gyflawni llawer o'r blaenoriaethau a nodwyd gennym. Rydym yn parhau i weithio'n galed i sicrhau y gwneir cynnydd ar bob un o'r ymrwymiadau a wnaethpwyd yn ein Rhaglen Lywodraethu.

2. Gan ddefnyddio fformat y Rhaglen Lywodraethu fel sail, mae hyn yn crynhoi'r cynnydd a wnaethpwyd mewn rhai o brif feysydd y portffolio Llywodraeth Leol.

**GWASANAETHAU CYHOEDDUS YNG NGHYMRU**

## *Cryfhau Democratiaeth Leol*

***Y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru***

Mae'r Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) yn ymdrin â diwygiadau i'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru, gan ymateb i argymhellion "Adroddiad Mathias" yn 2011. Bydd y Bil yn dirymu deddfwriaeth bresennol a bydd yn cael ei disodli gan ddarpariaethau a ddylai alluogi'r Comisiwn i wneud ei waith yn fwy effeithiol.

Mae'r Bil hefyd yn cynnwys darpariaethau a fydd yn:
- Caniatáu Cynghorau i wahanu rôl cadeirydd / maer seremonïol rhag llywyddu dros gyfarfodydd Cynghorau
- Ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau cymuned gael gwefannau
- Galluogi creu cydbwyllgorau safonau
- Gwella sut y mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn gweithredu

Cafodd y Bil ei gyflwyno fis Tachwedd 2012 a chwblhaodd Gam 1 gyda dadl Lawn ar 16 Ebrill 2013. Mae disgwyl i'r Bil gael ei gymeradwyo cyn toriad yr Haf 2013.

***Darlledu a Gwefannau***

Ym mis Ionawr 2013, cyhoeddodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau ar y pryd fod £1.25 miliwn ar gael i ddarparu cymorth i ddarlledu cyfarfodydd Awdurdodau Lleol, presenoldeb o bell a gwefannau i Gynghorau cymuned. Mae'r arian hwn wedi ei ddosbarthu i'r 22 prif Gyngor.

Er nad yw darlledu cyfarfodydd Cynghorau'n ofyniad statudol, mae dau Awdurdod Lleol yng Nghymru eisoes yn darlledu eu cyfarfodydd dros y we ac mae nifer yn bwriadu gwneud hynny. Dylai'r cyllid grant sydd ar gael olygu y bydd y rhan fwyaf o Awdurdodau Lleol yn symud i'r cyfeiriad hwn yn ystod y flwyddyn nesaf. O ran

presenoldeb o bell, bydd y darpariaethau ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, nad ydynt wedi dod i rym eto, yn ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau wneud trefniadau sy’n galluogi Cynghorwyr i fod yn bresennol mewn cyfarfodydd heb iddynt fod yn y prif fan cyfarfod. Gwneir hyn ar ffurf cyfleusterau cynadledda fideo gwell a fyddai’n helpu’r rhai sydd ag ystyriaethau domestig, teithio neu gyflogaeth sy’n golygu ei bod yn anodd iddynt fod yn bresennol yn y prif fan cyfarfod. Gall Cynghorau defnyddio’r arian i wella eu cyfleusterau i alluogi hyn. Yn olaf, mae’r gofyniad ar Gynghorau cymuned i gael gwefannau wedi’i gynnwys yn y Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru). Darperir arian ymlaen llaw i hwyluso’r broses o sicrhau presenoldeb ar-lein, gan nad oes gan oddeutu 50% o Gynghorau Cymuned wefannau ar hyn o bryd.

***Is-ddeddfwriaeth***

Mae tri darn o is-ddeddfwriaeth yn destun ymgynghori ar hyn o bryd. Y rhain yw:

Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006 (Diwygio) 2013

Y rheoliadau presennol yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006. Mae’r rhain yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol gynnwys y darpariaethau canlynol o fewn y rheolau sefydlog: penodi Prif Swyddogion; cofnodi pleidleisiau a llofnodi cofnodion; darpariaethau’n ymwneud â staff mewn Awdurdodau Lleol a gwahanol fathau o drefniadau gweithredol neu amgen; a chamau disgyblu yn erbyn deiliaid uwch swyddi penodol.

Cynigir fod y rheoliadau hyn yn cael eu newid i ychwanegu penaethiaid gwasanaethau democrataidd a swyddogion monitro at y rhestr o swyddogion y mae’r pwyllgor yn gyfrifol am eu penodi a’u diswyddo, yn hytrach na phennaeth gwasanaeth cyflogedig yr awdurdod h.y. yr un amddiffyniad yn erbyn camau disgyblu mympwyol ag sydd ar gael i uwch swyddogion eraill. Mae hyn yn ganlyniad Adran 8 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 sydd wedi gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i ddynodi un o’u swyddogion fel “Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd”. Mae cyfrifoldebau’r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn cynnwys cynghori aelodau anweithredol.

Mae’r ymgynghoriad hwn hefyd yn gwahodd sylwadau ar ddiddymu rôl yr unigolyn annibynnol o achosion diswyddo sy’n ymwneud â swyddogion gwarchodedig.

Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013 a Chanllawiau Statudol ar Absenoldeb Teuluol

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn creu hawl i bum math o absenoldeb teuluol ar gyfer aelodau awdurdod lleol: absenoldeb mamolaeth; absenoldeb newydd-anedig; absenoldeb mabwysiadydd; absenoldeb mabwysiadu newydd; ac absenoldeb tadau. Mae’r Rheoliadau drafft yn gwneud darpariaeth hefyd ar gyfer cadw cofnodion, diddymu absenoldeb gan awdurdod lleol, cwynion a dyletswyddau sy’n arferadwy gan aelodau yn ystod unrhyw gyfnod o absenoldeb. Diben y Canllawiau Statudol yw rhoi arweiniad i awdurdodau lleol wrth iddynt weithredu eu swyddogaethau o safbwynt hawliau aelodau i absenoldeb teuluol o dan ran 2 y Mesur a’r Rheoliadau.

Cod Ymarfer Diwygiedig a Argymhellir ar gyfer Cyhoeddusrwydd Awdurdodau Lleol

yng Nghymru

Mae'r Cod drafft diwygiedig yn adlewyrchu newidiadau i ddeddfwriaeth sydd wedi digwydd ers cyhoeddi'r Cod gwreiddiol yn 2001; Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009; Adran 5 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a'r Canllawiau Trosglwyddo Tai 2009. Prif ddiben y newidiadau yw diweddaru'r Cod i gyfeirio at ddarpariaethau statudol perthnasol, i eithrio cyhoeddi adroddiadau blynyddol gan aelodau etholedig a alluogwyd gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 o'r modd y mae'r cod yn cael ei weithredu, ac ychwanegu canllaw ar gynhyrchu papurau newydd Cynghorau a ffilmio a darlledu cyfarfodydd Cynghorau.

## *Helpu i Wella ein Gwasanaethau Cyhoeddus yn Barhaus*

***Cymorth ac Ymyriadau***

Ers rhai blynyddoedd bellach rydym wedi gweithredu protocol ar sut y dylwn helpu neu ymyrryd pan fydd Awdurdodau Lleol yn methu. Cafodd fersiwn ddiweddaraf y protocol ei chyhoeddi'n ddiweddar ac mae'n ffrwyth cydweithio cynhyrchiol rhwng amryw o sefydliadau, gan gynnwys CLlLC, WAO, AGGCC ac Estyn.

Mae'r Protocol yn ymdrech i leihau'r angen i ymyrryd drwy ganfod a gwneud diagnosis yn gynnar o ddiffyg gwelliant (neu wendid sy'n dod i'r amlwg) mewn Awdurdod Lleol. Mae'n annog yr Awdurdodau i werthuso'u hunain yn drylwyr, yn ogystal ag annog rhannu gwybodaeth mewn ffordd well a mwy gonest â phartneriaid cenedlaethol. Y nod yw canfod meysydd ble mae diffygion corfforaethol neu yn y gwasanaeth yn dod i'r amlwg a chynnig, trwy weithio â phartneriaid cenedlaethol eraill, cymorth ac arweiniad cynnar i'w helpu i wella.

Bydd deialog hefyd rhwng rheoleiddwyr, arolygwyr, CLlLC a ninnau i helpu i ganfod arwyddion cynnar ac yna i symud yn gyflym i ddatblygu dealltwriaeth ac i ymateb yn gyson. Mae'r Protocol yn rhagweld mai cam olaf fydd ymyrryd yng ngwaith yr Awdurdod. Fodd bynnag, os bydd angen ni fyddwn yn petruso rhag gweithredu.

***Cytundebau Canlyniadau***

Mae gennym ni a'r 22 Awdurdod Lleol gytundebau i gyflawni cyfres o ganlyniadau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd mewn amryw o feysydd gwasanaeth. Mae perfformiad yn cael ei asesu yn erbyn y canlyniadau hyn ac rydym yn talu grantiau ar delerau graddedig yn seiliedig ar faint y cyflawniad. Mae'r holl gytundebau wedi cael eu rhoi ar waith gyda mwyafrif yr awdurdodau'n llwyddo i gyflawni eu canlyniadau ac yn cael eu grant yn llawn.

Mae'r dull hwn yn cael ei adolygu yn 2013-14 i ystyried diwygiad ehangach o wasanaethau cyhoeddus gan gynnwys hybu cydweithredu rhanbarthol gyda golwg ar gyflwyno trefniadau newydd ar gyfer 2014-15.

***Cynlluniau Integredig Sengl***

Rydym wedi ymrwymo i wneud gweinyddu gwasanaethau cyhoeddus yn llai cymhleth fel y gellir neilltuo mwy o adnoddau i wasanaethau rheng flaen a sicrhau mwy o dryloywder i ddinasyddion am flaenoriaethau gwasanaethau cyhoeddus.

Rydym wedi datgan drwy'r canllaw yr hoffem weld ardal pob Awdurdod Lleol yn integreiddio eu pedwar cynllun statudol ar wahân yn un cynllun integredig, gan y byddai buddiannau effeithlonrwydd ac effeithlonrwydd amlwg yn deillio o hyn. O Ebrill 2013 ymlaen, bydd gan 21 o'r 22 Awdurdod Lleol gynlluniau integredig sengl ar waith, felly mae nifer y cynlluniau wedi gostwng o 88 i 25. Mae'r un Awdurdod arall ar y ffordd i gyflawni hyn erbyn Ebrill 2014. Hefyd, mae pob ardal yn cymryd rhan mewn ymarferiad rhesymoli partneriaethau, ac mae amryw o fodelau partneriaeth gwahanol, mwy effeithlon yn datblygu.

Rydym yn ystyried sut y gallwn symud ymlaen i'r cam nesaf drwy roi cynllunio integredig ar delerau statudol sengl drwy'r Bil Datblygu Cynaliadwy. Bydd hyn yn symleiddio amryw o ddeddfwriaethau presennol sy'n gysylltiedig â chynllunio a gweithio mewn partneriaeth ac yn alinio'r cylch cynllunio strategol â'r cylch etholiadol lleol i roi mwy o gysondeb mewn cynllunio tymor hir.

***Ymyrraeth yn Ynys Môn***

Yn 2011 penodwyd Comisiynwyr i redeg Cyngor Sir Ynys Môn yn dilyn adroddiad beirniadol gan yr Archwilydd Cyffredinol a ganfu fethiannau llywodraethu difrifol yno. Ar ôl gweld arwyddion o gynnydd, cyhoeddodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau ar y pryd gyfarwyddyd llai caeth i'r Cyngor ym mis Hydref 2012: lleihawyd nifer y Comisiynwyr o bump i dri; ni fyddai'r Comisiynwyr yn bresennol yn y Cyngor mor aml; ailafaelodd y Cynghorwyr yn raddol yn y broses o reoli'r gwaith o ddydd i ddydd.

Mae'r Cyngor wedi parhau i ddangos cynnydd. Mae'r Comisiynwyr yn hyderus ei fod wedi gwneud newid y gellir ei gynnal. Mae'r cyflawniadau diweddar yn cynnwys y canlynol: mae'r Cyngor wedi bwrw ymlaen â phrosiectau cydweithredol (gan arwain ar fasnachu mewn pobl yng Ngogledd Cymru); yr Awdurdod Lleol cyntaf yng Nghymru i gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru; a chyrraedd y rhestr fer ar gyfer Prosiect Rheoli Newid am ei raglen adfer.

Mae etholiadau ar gyfer y Cyngor newydd wedi'u trefnu ar gyfer 3 Mai 2013 ac maent wedi denu dros 100 o ymgeiswyr am y 30 sedd.

## *Sicrhau bod ein Harian yn Arwain at Ddulliau Cryfach a Mwy Effeithiol o Ddarparu Gwasanaethau*

***Setliad Llywodraeth Leol***

Cafodd y setliad Llywodraeth Leol am 2013-14 ei gyhoeddi ar 11 Rhagfyr 2012. Rydym wedi rhoi cynnydd o 1.5% mewn cyllid craidd i Gynghorau. Mae Band D y Dreth Gyngor yng Nghymru £230 yn is nag yn Lloegr, ar gyfartaledd. Roedd y setliad yn cynnwys cronfa £10 miliwn ar gyfer cydweithredu rhanbarthol. Mae'r meini prawf a'r trefniadau ar gyfer manteisio ar y gronfa wedi cael eu datblygu drwy Grŵp Arwain y Gwasanaethau Cyhoeddus.

| |
|---|
| Mae'r cynnydd cyfartalog yn y Dreth Gyngor yng Nghymru am 2013-14, gan gynnwys praesptau Heddlu a Chynghorau Cymuned yn 3.2%. Cafodd setliad yr heddlu ei gymeradwyo yn y cyfarfod llawn ar 19 Chwefror 2013. Ar ôl tampio, bydd pob heddlu yng Nghymru a Lloegr yn gweld gostyngiad o 1.6% yn eu cyllid craidd. |
| ***Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor*** |
| Mae Llywodraeth y DU wedi diddymu Budd-dal y Dreth Gyngor (CTB) ers 1 Ebrill 2013. Cyn iddo gael ei drosglwyddo i Lywodraeth Cymru, cafodd cyllid ar gyfer cynlluniau i gymryd ei le eu gostwng 10% a'u symud o fod yn seiliedig ar angen i gyllidebau sefydlog. Rydym wedi cymryd cyfrifoldeb am ddatblygu trefniadau newydd i helpu pobl yng Nghymru i dalu biliau'r Dreth Gyngor.<br><br>Ceir darpariaethau i ganiatáu Gweinidogion Cymru i gyflwyno cynlluniau gostwng y Dreth Gyngor yng Nghymru drwy reoliadau yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012, a basiwyd ar 1 Tachwedd 2012. Cafodd rheoliadau i ganiatáu ar gyfer prif elfennau'r cynllun eu pasio gan y Cynulliad ym mis Rhagfyr 2012 ac roedd gweddill y rheoliadau ar gyfer y cynllun ar waith erbyn 1 Ebrill 2013. Bydd yr arian a drosglwyddir oddi wrth Lywodraeth y DU yn £222 miliwn yn 2013-14 ac yn 2014-15. Ar 17 Ionawr 2013, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y bydd yn gallu darparu £22m i wneud iawn am y diffyg yn 2013-14.<br><br>Mae'r cynllun newydd ar waith ac yn cael ei weithredu gan bob Cyngor. Bydd rheoliadau'n gysylltiedig â'r cynllun ar gyfer 2014-15 yn cael eu dwyn yn ôl i'r Cynulliad yn ddiweddarach eleni. |

| ***SICRHAU CYDWEITHREDU EFFEITHIOL RHWNG GWASANAETHAU CYHOEDDUS*** |
|---|
| ***Y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus*** |
| Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys cyfres o ddiwygiadau ac adolygiadau er mwyn cryfhau'r broses o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus effeithlon, effeithiol a hygyrch. Fel rhan o hyn, mae'r Prif Weinidog wedi sefydlu Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus, ac mae wedi cyhoeddi y bydd Syr Paul Williams yn cadeirio'r Comisiwn. Mae Nick Bennett, Nick Bourne, Nerys Evans Juliet Luporini, Garry Owen, a'r Cynghorydd Alun Thomas hefyd wedi cytuno i wasanaethu fel aelodau.<br><br>Gan fod cyllidebau'r sector cyhoeddus yn debygol o barhau i grebachu ac wrth i'r pwysau arnynt gynyddu, mae'n amlwg felly bod angen edrych yn ofalus sut y gellir cynnal gwasanaethau a chodi safonau perfformio, fel y gall pobl Cymru barhau i gael y gwasanaethau cyhoeddus sydd eu hangen arnynt ac y maent yn eu gwerthfawrogi, ac i ddylanwadu arnynt. Mae sefydlu'r Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus yn rhoi cyfle i'r sawl sy'n darparu gwasanaethau, y sawl sy'n atebol amdanynt o safbwynt gwleidyddol a'r rheini sy'n eu defnyddio, i archwilio sut y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu llywodraethu: hynny yw, sut y cânt eu dwyn i gyfrif am eu perfformiad a'u darparu yn y ffordd fwyaf effeithiol i'r cyhoedd. |
| ***Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus*** |
| Mae gwasanaethau cyhoeddus yn wynebu'r ddwy her o gyfyngiadau ariannol ac |

anghenion dinasyddion sy’n tyfu ac sy’n gynyddol gymhleth. Oherwydd hyn, mae’n hanfodol bod y system yn cael ei diwygio. Mae’r gwaith i ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus hyd yma wedi canolbwyntio ar:

- ceisio sicrhau gweledigaeth gyffredin a chydlyniad rhwng y prif ddiwygiadau i wasanaethau sy’n digwydd ym meysydd addysg, trafnidiaeth, tai, iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, gwastraff, cynllunio ac eraill; a
- chanfod a gwireddu cyfleoedd trawsbynciol i wella gwasanaethau neu i gyflawni arbedion.

Yn genedlaethol, mae Cyngor Partneriaeth Cymru, sy’n gorff statudol, wedi ei ailffurfio i weithredu fel grŵp mwy effeithiol i wneud penderfyniadau. Drwy gynrychiolaeth ranbarthol ar gyfer Llywodraeth Leol ac aelodaeth o blith gwasanaethau cyhoeddus eraill, mae’n darparu arweinyddiaeth, llywodraethu ac atebolrwydd i gynorthwyo i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus effeithiol ac effeithlon, gan gynnwys Llywodraeth Leol. Mae’n cwrdd yn flynyddol, gyda’r is-grŵp, y Grŵp Diwygio Darpariaeth (RDG), sy’n canolbwyntio ar ddiwygio a darpariaeth, yn cwrdd yn amlach.

Mae’r RDG yn rhoi arweinyddiaeth wleidyddol i Grŵp Arwain y Gwasanaethau Cyhoeddus, a sefydlwyd ym mis Medi 2011, ac sy’n helpu i yrru diwygiadau mewn gwasanaethau cyhoeddus yn genedlaethol ac yn rhanbarthol. Mae’n cynnwys pedair rhaglen waith genedlaethol i ddiwygio, sef:

- Caffael;
- Rheoli Asedau;
- Datblygiad Sefydliadol a Gweithredu’r Compact ar gyfer diwygio gwasanaethau llywodraeth leol (ODSI); a
- Gwasanaethau Effeithiol i Grwpiau Agored i Niwed (ESVG).

***Y Gronfa Cydweithredu Rhanbarthol***

Cafodd y Gronfa Cydweithredu Rhanbarthol, sy’n werth £10m, ei chreu fel rhan o’r setliad Llywodraeth Leol ar gyfer 2013-14 i gymell ac annog cydweithredu rhanbarthol mewn gwasanaethau cyhoeddus, a fydd yn arwain at newidiadau a gwelliannau gwirioneddol a sylweddol i wasanaethau cyhoeddus. Bydd y gronfa’n gweithredu fel catalydd i oresgyn heriau fel cyllid ymlaen llaw i weithredu prosiectau cydweithredu.

Mae pymtheg o brosiectau (sy’n werth cyfanswm o £6.370 miliwn) wedi eu cymeradwyo o dan y Gronfa Cydweithredu Rhanbarthol hyd yma, ac mae disgwyl y bydd cyfran bellach gael ei chymeradwyo yn y dyfodol agos. Mae’r prosiectau’n cynnwys integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol, caffael ynni a rhannu gwasanaethau TGCh.

## Cefnogi Pobl

***Y Lluoedd Arfog***

Mae gennym ymrwymiad cyffredinol i gefnogi’r Lluoedd Arfog er mwyn sicrhau bod aelodau presennol, cyn aelodau a’u teuluoedd yn gallu manteisio ar wasanaethau sy’n diwallu eu hanghenion penodol ac sy’n cydnabod eu gwasanaeth i’w gwlad.

Cafodd yr adroddiad blynyddol cyntaf ar ein Pecyn Cymorth i gymuned y Lluoedd Arfog ei gyhoeddi fis Tachwedd 2012. Mae'r Pecyn Cymorth yn cael ei adolygu yn 2013. Mae Ffederasiynau Teuluoedd y Lluoedd Arfog wedi eu gwahodd i gyflwyno gwybodaeth ar faterion sy'n achos pryder iddynt ac ar anghenion maent wedi dod ar eu traws yn eu gwaith. Rydym hefyd wedi comisiynu ymchwil, sy'n cael ei gynnal yn 2013, i asesu dealltwriaeth cymuned y Lluoedd Arfog o'r gwasanaethau cyhoeddus sydd ar gael iddynt ac unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth. Rydym yn parhau i gefnogi dau ddiwrnod y Lluoedd Arfog yng Nghymru – un yn y Gogledd ac un yn y De – drwy grant o £20,000.

## Cymunedau Diogelach i Bawb

***Lleihau ac Atal Troseddau Ieuenctid***

Rydym wedi ymrwymo i edrych ar ddulliau gwahanol i gryfhau pwerau presennol yn y meysydd datganoledig i ddylanwadu ar y ffordd y mae gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid yn cael eu darparu yng Nghymru. Mae ein tystiolaeth i Gomisiwn Silk yn galw am ddatganoli pwerau gweithredol o ran Cyfiawnder Ieuenctid, ac yn y tymor hwy am ddatganoli'r System Cyfiawnder Troseddol yn ei chyfanrwydd, ac a fyddai'n cynnwys Cyfiawnder Ieuenctid. Mae ein safbwynt yn cael ei gefnogi gan y Comisiynydd Plant.

Cafodd Papur Gwyrdd ar gynigion i wella gwasanaethau i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o fod, neu sydd wedi dod i gysylltiedig â'r System Cyfiawnder Troseddol Ieuenctid ei gyhoeddi fis Medi 2012. Daeth yr ymgynghoriad i ben fis Rhagfyr 2012. Mae'r ymatebion yn cael eu dadansoddi a chânt eu cyhoeddi, ynghyd â'r camau nesaf, yn y man.

Mae'r Gronfa Atal Troseddu Ieuenctid (y Gronfa Cymunedau Diogelach gynt) yn parhau i roi arian i gynorthwyo cynlluniau sy'n gweithio i ddenu pobl ifanc oddi wrth ymddygiad troseddol a gwrthgymdeithasol. Bydd y Gronfa Atal Troseddu Ieuenctid yn dosbarthu bron iawn i £4.9 miliwn yn 2013-14.

Yn y chwe mis diwethaf mae'r Gronfa wedi dechrau symud tuag at fodel cyflenwi rhanbarthol i sicrhau gwell effeithlonrwydd a mwy o gydweithredu. Mae hyn yn cyd-fynd â'n Patrwm Cydweithredu Rhanbarthol a ddatblygwyd o dan y rhaglen Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae Timau Troseddau Ieuenctid a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol wedi datblygu achosion busnes rhanbarthol sy'n adlewyrchu'r prosiectau o fewn eu hardal gydweithredol hwy.

## *Lleihau Lefelau Troseddu ac Ofn Troseddau*

***Cyflogi 500 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu***

Mae ariannu 500 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (CSOs) ychwanegol yn un o'n hymrwymiadau 'Pump am Ddyfodol Tecach' yn y Rhaglen Lywodraethu. Gwnaethpwyd cynnydd sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac roedd 430 o CSOau wedi eu recriwtio erbyn Chwefror 2013. Rydym yn rhagweld y bydd pob un o'r 500 wedi eu recriwtio erbyn Medi 2013.

***Cefnogi ymestyn 'ardaloedd dim galw diwahoddiad' i amddiffyn pobl rhag***

| |
|---|
| ***troseddau ar garreg y drws.*** |
| Mae 'Ardaloedd dim galw diwahoddiad' yn bodoli eisoes mewn nifer o ardaloedd yng Nghymru. Rydym yn gweithio ag Awdurdodau Lleol i sefydlu llinell sylfaen o'r gweithgarwch sy'n digwydd eisoes.<br><br>Mae gweithgor bychan wedi'i sefydlu sy'n cynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru, swyddogion Safonau Masnach a chynrychiolwyr yr Heddlu, a thrwy'r gweithgor rydym wedi gofyn i Awdurdodau Lleol am wybodaeth bellach am faint yr ardaloedd yn eu dalgylch. Mae'r wybodaeth honno gennym yn awr ac rydym yn ystyried y ffordd orau i'w chyflwyno. Ar sail yr wybodaeth hon byddwn yn cysylltu eto ag Awdurdodau Lleol am wybodaeth am effaith yr ardaloedd sydd eisoes yn bod a pha rwystrau (os oes rhai) sy'n bod rhag sefydlu mwy o ardaloedd. Bydd hyn yn ein helpu i ymestyn yr ardaloedd hyn yn ystod y deuddeng mis nesaf. |

| |
|---|
| **Lleihau Cyfraddau Cam-drin a Thrais Domestig yn Erbyn Menywod** |
| ***Yn parhau i herio agweddau hen ffasiwn tuag at*** |
| Buom yn rhedeg nifer o ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd yn ystod 2012-13. Roedd y rhain yn cynnwys ymgyrch ar y teledu ac yn y cyfryngau cymdeithasol yn ystod Nadolig 2012 i ddangos effaith cam-drin domestig ar blant a theuluoedd. Buom yn rhedeg ymgyrch hefyd yn ystod cystadleuaeth rygbi'r Chwe Gwlad, gyda'r slogan 'Rugby's just a game but violence isn't', gyda'r nod o fynd i'r adael â'r lefelau cynyddol o gam-drin domestig yn ystod y gemau rygbi rhyngwladol. Mae gwaith ar gynigion ar gyfer ymgyrchoedd yn 2013/14 eisoes ar waith. |
| ***Rhoi Terfyn ar Drais yn Erbyn Menywod, y Bil Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol*** |
| Ym mis Tachwedd 2012 cyhoeddwyd Papur Gwyn gennym yn gwahodd sylwadau ar gynigion polisi a deddfwriaethol gyda'r nod o roi terfyn ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Bwriad y cynigion yw gwella arweinyddiaeth ac atebolrwydd, gwella addysg ac ymwybyddiaeth a chryfhau gwasanaethau yng Nghymru.<br><br>Fel rhan o'r broses ymgynghori, cyfarfu tîm y Bil â dros 1,000 o aelodau'r cyhoedd, dros 120 o randdeiliaid ac ymgynghorwyd â dros 100 o bobl ifanc o bob rhan o Gymru. Daeth yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn i ben ar 22 Chwefror 2013. Mae'r ymatebion yn cael eu dadansoddi a chânt eu cyhoeddi yn y man. Disgwylir y byddwn yn penderfynu ar gam nesaf y gwaith hwn yn ystod yr haf. |

| |
|---|
| ***Y Prosiect 10,000 o Fywydau Diogelach*** |
| Sefydlwyd y prosiect 10,000 o Fywydau Diogelach (cam-drin domestig) i roi ar waith yr hyn a ddysgwyd yn sgil y tri phrosiect a arweiniwyd gan y Kafka Brigade yn y De a phrosiect 1,000 o Fywydau'r GIG. Mae'r prosiect yn ymdrech i wella'r gwasanaeth amlasiantaeth a ddarperir i rai sydd wedi dioddef cam-drin domestig mewn achosion risg safonol a chanolig.<br><br>Mae asesiadau a gynhaliwyd yn rhanbarthol yn erbyn safonau sylfaenol 10,000 o |

Fywydau Diogelach wedi rhoi darlun i ni o’r sefyllfa bresennol ledled Cymru. Edrychwyd yn fanwl arnynt yng nghyd-destun yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ‘Rhoi Terfyn ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol’. Mae cynllun cyflawni ar gyfer 10,000 o Fywydau Diogelach wedi cael ei ddatblygu ac mae gwaith yn mynd ymlaen i gyflawni’r tair ffrwd waith ar gyfer gweithredu ar unwaith gan Grŵp Arwain y Gwasanaethau Cyhoeddus: polisïau gweithleoedd, rhannu gwybodaeth a mewnbwn defnyddwyr gwasanaeth. Bydd y cynllun cyflawni’n paratoi’r ffordd ar gyfer y Bil Cam-drin a Thrais Domestig yn erbyn Menywod arfaethedig.

***Cydlynydd Atal Masnachu Mewn Pobl***

Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu amgylchedd yng Nghymru sy’n wrthwynebus i fasnachu mewn pobl ac sy’n cydlynu’r cymorth gorau posibl i ddioddefwyr, Cafodd ail Gydlynydd Atal Masnachu Mewn Pobl Cymru ei benodi ar 20 Tachwedd 2012. Hefyd, mae Grŵp Arwain wedi’i sefydlu gydag uwch gynrychiolwyr o’r heddlu, y gwasanaeth prawf, Gwasanaeth Erlyn y Goron, y Swyddfa Gartref a’r Asiantaeth Ffiniau ac asiantaethau perthnasol o’r sector gwirfoddol. Mae’r Grŵp Arwain wedi cwrdd unwaith a chytunodd i ddatblygu cynllun cyflawni ar y cyd ac i wella’r sail tystiolaeth i wella dealltwriaeth o raddfa’r broblem yng Nghymru.

Mae gwaith wedi dechrau â Chyngor Ynys Môn ac asiantaethau allweddol eraill i lunio rhaglen waith i fynd i’r afael â masnachu mewn pobl o borthladd Caergybi ac i roi mesurau ataliol ar waith ar gyfer y gwaith o adeiladu’r orsaf bŵer niwclear arfaethedig sy’n debygol o greu gweithlu rhwng 6,000 a 8,000 o weithwyr. Bydd angen rhai o’r rhain i gynorthwyo’r ‘gwasanaethau hamdden’ (bariau/clybiau/ gwerthwyr bwyd cyflym/bwytai/gwestai) a all gyflogi pobl sydd wedi cael eu masnachu.

## *Gwella Diogelwch mewn Cymunedau*

***Y Gwasanaeth Tân ac Achub***

Rydym yn parhau i ddarparu cyllid grant i Awdurdodau Tân ac Achub (Frau) i gynnal gweithgareddau diogelwch cymunedol, gan gynnwys lleihau nifer y tanau bwriadol a chynnal Gwiriadau Diogelwch Tân yn y Cartref (HFSCau). Mae hyn yn cynnwys gosod larymau mwg. Cynhaliodd y Frau 73,170 o HFSCau yn 2011-12. Rydym wedi neilltuo grant cyfalaf a refeniw o £3.689 miliwn ar gyfer cynlluniau diogelwch tân cymunedol yn 2012-13.

Ym mis Ebrill 2012, cyhoeddwyd ein Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub ar gyfer 2012 ymlaen. Mae hwn yn amlinellu’r hyn a ddisgwyliwn gan yr Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru. Byddwn yn cyhoeddi adroddiad cynnydd yn gynnar yn 2013-14 ar sut mae’r camau a geir ynddo, a’r Fframwaith blaenorol yn cael eu gweithredu.

## *Gwella cydnerthedd cymunedau:*

***Cynnal a gwella strwythur i gydlynu cynllunio, ymateb ac adfer mewn argyfyngau ledled Cymru***

Fel rhan o’r cyflwyniad i Gomisiwn Silk, rydym am weld swyddogaethau gweithredol

yn cael eu trosglwyddo o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, i gydnabod rôl de facto Gweinidogion Cymru yn y strwythur cynllunio at argyfyngau yng Nghymru. Byddai'r datblygiad hwn yn sicrhau bod y cyfrifoldeb am weithredu'r ddeddfwriaeth yn digwydd yn fwy uniongyrchol yng Nghymru, ble byddai dealltwriaeth well o'r ffordd y mae cydnerthedd yn gweithio.

Daeth adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar Argyfyngau Sifil yng Nghymru i'r casgliad bod Llywodraeth Cymru yn 'cefnogi ei phartneriaid ac yn ceisio cyfleoedd i ychwanegu gwerth at yr ymateb i argyfyngau sifil posibl yng Nghymru'.

Mae Fforwm Cymru Gydnerth yn cwrdd deirgwaith y flwyddyn o dan y Prif Weinidog i roi arweiniad strategol i'r broses o ddatblygu cydnerthedd yng Nghymru.  Rydym yn cydweithio â Llywodraeth y DU i weithredu Rhaglen Alluoedd y DU.

Yn dilyn yr argymhellion yn Adroddiad Simpson, mae'r achosion busnes dros ranbartholi gwasanaethau argyfwng llywodraeth leol wedi cael eu cymeradwyo gan Fwrdd Datblygiad Sefydliadol a Gweithredu Simpson (ODSI) sy'n gweithio o dan Grŵp Arwain y Gwasanaethau Cyhoeddus.  Cânt eu gweithredu erbyn Medi 2013. Mae gwaith cwmpasu'n cael ei wneud yn awr i gyflawni'r ymrwymiad i ranbartholi cynllunio amlasiantaeth at argyfyngau erbyn Medi 2015.